



DISGRIFIAD SWYDD

Teitl:	Rheolwr y Labordy Arloesi
Maes Cyfrifoldeb:	Labordy Arloesi Prydain Ddi-garbon
Yn atebol i:	Cyd-Brif Swyddog Gweithredol
Yn gyfrifol am:	Cynorthwydd Ymchwil Hyfforddwyr ac ymgynghorwyr allanol
Math o gontract:	Cyfnod penodol – Dwy flynedd
Gradd Cyfrifoldeb:	7
Cyflog:	£35,898.00 y flwyddyn
Lleoliad:	Hyblyg gydag ymweliadau rheolaidd â chanolfan eco CAT ger Machynlleth Fel arfer yng nghanolfan eco CAT ger Machynlleth
Oriau:	37.5 awr yr wythnos (1.0 FTE)
Diwrnodau Gwaith:	Fel arfer ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm Gweithio ar benwythnosau a gyda'r nos o bryd i'w gilydd.
Dyddiad JD:	Chwefror 2024

GWYBODAETH AM Y GANOLFAN DECHNOLEG AMGEN

Mae Canolfan y Dechnoleg Amgen (CAT) yn elusen amgylcheddol sy'n enwog yn rhyngwladol, yn ganolfan eco sydd gyda'r gorau yn y byd, ac yn un o'r darparwyr addysg amgylcheddol ôl-radd mwyaf blaenllaw yn y DU, sydd wedi'i lleoli ger Machynlleth yng Nghanolbarth Cymru.

Mae CAT yn darparu ysbrydoliaeth, addysg a hyfforddiant mewn datrysiadau i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.

Mae gweithgareddau allweddol yn cynnwys cyrsiau byr preswyl, hyfforddiant galwedigaethol a graddau ôl-raddedig mewn ystod eang o bynciau ym maes cynaliadwyedd, gyda chysiau a digwyddiadau ar-lein yn cael eu cynnig ochr yn ochr â dysgu wyneb yn wyneb.

Lansiodd CAT y Ganolfan Prydain Ddi-garbon a'r Labordy Arloesi yn 2020 gyda chymorth gan Sefydliad Moondance. Prosiect tair blynedd oedd hon i ddechrau a

chafodd gyllid pellach gan Sefydliad Moondance i redeg y Labordy Arloesi am dair blynedd arall. Nod y prosiect yw gwella gallu cynghorau a chymunedau i roi datganiadau argyfwng hinsawdd ar waith a chreu newid systemig er mwyn cynyddu'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn cael ei gyflawnir drwy gynnig rhaglen o gefnogaeth gyda'r nod o gynyddu cymhwysedd, hyder ac effeithiolrwydd llunwyr polisïau, cymunedau a sefydliadau wrth ddatblygu polisïau a chynlluniau gweithredu di-garbon. Bydd y cymorth hwn yn cynnwys: defnyddio'r model Prydain Ddi-garbon i roi'r wybodaeth i bobl greu Cynlluniau Gweithredu Di-garbon; darparu hyfforddiant Prydain Ddi-garbon gan ddefnyddio model 'hyfforddi'r hyfforddwr' i gynyddu sgiliau a chapasiti cymunedau i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd; cyflenwi'r offer i alluogi pobl i droi datganiadau argyfwng hinsawdd yn gamau gweithredu; sefydlu canolfan adnoddau digidol a rhwydwaith ar-lein i ddarparu cymorth gan gymheiriaid a chynyddu hyder unigolion a chymunedau i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Ar y cyd â Chanolfan Prydain Ddi-garbon, bydd y Labordy Arloesi yn nodi materion, blaenoriaethau a thasgau allweddol; yn datblygu syniadau sy'n effeithio ar y meysydd hyn; ac yn creu llwybrau i effaith ar raddfa fwy neu newid systemau.

TROSOLWG O'R RÔL

Bydd deiliad y swydd yn rheoli Labordy Arloesi Prydain Ddi-garbon, i wella gallu cynghorau a chymunedau i roi datganiadau argyfwng hinsawdd ar waith, gan nodi tasgau, blaenoriaethau a materion allweddol, datblygu syniadau sy'n effeithio ar y meysydd hyn a chreu llwybrau i effaith ar raddfa fwy neu newid systemau, er mwyn cynyddu'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

PRIF GYFRIFOLDEBAU

- Gweithio gyda Thîm Canolfan Prydain Ddi-garbon a'r Arfarnydd Allanol, i egluro nodau a galluoedd, gan nodi tasgau, blaenoriaethau a materion allweddol y gallai'r Labordy Arloesi helpu i fynd i'r afael â nhw, gan asesu galluoedd a bylchau arloesi presennol a phosibl
- Dylunio model y Tîm Arloesedd
- Rheoli'r holl staff sy'n cael eu cyflogi i gyflawni'r Labordy Arloesi
- Cysylltu â'r Pennaeth Datblygu i nodi ffynonellau cyllid eraill ar gyfer datblygu model y Tîm Arloesi ac adeiladu'r Tîm Arloesi
- Datblygu a gweithredu methodoleg y Labordy Arloesi, gan dreialu a chyflwyno Labordai Arloesi
- Sefydlu systemau, polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer rheoli, monitro a gwerthuso'r Labordy Arloesi yn effeithiol er mwyn cyflawni nodau ac amcanion, allbynnau, canlyniadau ac effaith y prosiect
- Gweithio gydag Ysgol Graddedigion yr Amgylchedd a chyfrannu at addysgu ar y radd Meistr mewn Newid Ymddygiad a graddau Meistr eraill

- Cynrychioli'r Labordy Arloesi yn allanol
- Cysylltu a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allanol priodol, i gefnogi anghenion cyngorau a chymunedau i roi datganiadau argyfwng hinsawdd ar waith
- Rheoli ymgynghorwyr a staff allanol sy'n gyfrifol am ddarparu hyfforddiant ac ymgynghoriaeth
- Paratoi deunydd marchnata a rhoi cyhoeddusrwydd i'r prosiect a'i weithgareddau
- Unrhyw ddyletswyddau eraill y cytunwyd arnynt gyda'r Cyd-Brif Swyddog Gweithredol

MANYLEB Y PERSON			
Disgrifiad	Hanfodol	Dymunol	Sut mae'n cael ei werthuso
<i>Addysg a chymwysterau</i>			
a Gradd neu gymhwyster cyfatebol	*		Ffurflen gais
b Gradd Meistr neu gymhwyster cyfatebol		*	
c Cymhwyster mewn pwnc perthnasol e.e. rheoli, Hwyluso, Meddwl trwy Systemau, Theori U ac ati.	*		
<i>Gwybodaeth a phrofiad</i>			
d Gwybodaeth am y newid yn yr hinsawdd a materion yn ymwneud â chynaliadwyedd	*		Ffurflen gais a chyfweliad
e Gwybodaeth am labordai arloesi	*		
f Hanes llwyddiannus o reoli, datblygu a chyflwyno labordai arloesi	*		
g Profiad o reoli cysylltiadau gyda rhanddeiliaid allweddol	*		
h Hanes llwyddiannus o fonitro a gwerthuso prosiectau	*		
<i>Doniau a sgiliau</i>			
i Sgiliau cyflwyno ardderchog.	*		Ffurflen gais, cyfweliad ac ymarfer asesu
j Sgiliau cyfathrebu rhyngpersonol rhagorol			
k Gallu hwyluso prosesau cymhleth			
l Sgiliau cyfathrebu gwych ar lafar ac ar bapur	*		
m Sgiliau trefnu rhagorol	*		
n Sgiliau ymchwil rhagorol	*		
o Sylw pendant i fanylion	*		
p Hyddysg mewn cyfrifiadura: MS Word ac Excel, e-bost, y rhyngwrdd a meddalwedd cyfranogol digidol	*		
q Gallu cyfathrebu yn Gymraeg – ar lafar ac ar bapur neu barodrwydd i ddysgu		*	
r Gallu a pharodrwydd i weithio'n hyblyg	*		
<i>Priodweddau personol</i>			
s Gallu cymell eich hun	*		Ffurflen gais a chyfweliad
t Gallu gweithio'n effeithiol fel unigolyn, fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth ag eraill	*		
u Gallu a pharodrwydd i gadw cyfrinachedd llwyr	*		
v o safbwynt gwybodaeth sensitif			
w Ymrwymiad i gyfle cyfartal	*		
x Dangos parch at amrywiaeth eang o bobl	*		
<i>Amgylchiadau</i>			
y Yn barod i deithio'n achlysurol er mwyn bodloni gofynion sy'n gysylltiedig â'r swydd	*		Ffurflen gais a chyfweliad
z Empathi ag ethos a gwerthoedd craidd Canolfan y Dechnoleg Amgen	*		
aa Dealltwriaeth ragorol o faterion amgylcheddol	*		

Mae o fudd i chi eich bod chi'n nodi'n glir yn eich cais sut rydych yn bodloni'r meini prawf a'r cyfrifoldebau a nodwyd ar gyfer y swydd. Rydych chi'n cael eich anog i ddarparu enghreifftiau perthnasol a phenodol.